Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

**Adran Addysg**
Canolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,
Abertawe, SA1 3SN
www.abertawe.gov.uk

*Gofynnwch am:*
*Llinell Uniongyrchol:*
*E-bost:*
*Ein Cyf:*
*Eich Cyf:*
*Dyddiad:* 17 Hydref 2022

Annwyl Riant/Ofalwr

Rwy'n falch iawn bod ysgolion wedi gallu dychwelyd i'r drefn arferol yr hydref hwn yn dilyn dwy flynedd a hanner anodd iawn. Fodd bynnag, ar ôl cyfnod mor ansicr nid yw popeth fel yr oedd cyn y pandemig. Er enghraifft, rydym wedi sylwi nad yw llawer o blant yn Abertawe yn mynychu'r ysgol mor rheolaidd ag o'r blaen. Rydym yn bryderus ynghylch hyn oherwydd mae tystiolaeth yn awgrymu bod presenoldeb da yn yr ysgol yn gwella cyfleoedd bywyd i blant a phobl ifanc ac rydym am fod yn sicr ein bod yn gwneud popeth posib i sicrhau bod pob plentyn yn Abertawe yn cael y cyfle gorau i lwyddo.

Buddion amlycaf presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yw bod disgyblion yn cael y cyfle gorau i ddysgu pan fyddant yn yr ysgol. Mae presenoldeb da yn cefnogi cyflawniad mewn dysgu ac yn helpu plant i wneud cynnydd. Hoffem i holl ddisgyblion Abertawe adael yr ysgol gyda'r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i gymryd y camau nesaf y maent am eu cymryd yn eu bywydau. Gall hynny fod yn gyflogaeth neu'n astudiaeth bellach ond beth bynnag maent yn ei ddewis, dylai presenoldeb da yn yr ysgol fod yn rhan hanfodol o'r cam nesaf.

Mae hefyd yn bwysig gwybod y gall presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol helpu plant a phobl ifanc i wella eu lles. Mae buddion mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn cynnwys:

- sefydlu arferion da sydd yn eu tro yn helpu plant i fagu hyder a theimlo'n ddiogel.
- mae meithrin perthynas dda ag oedolion a phlant eraill yn llawer haws pan fydd presenoldeb rheolaidd. mae'r perthnasoedd hyn yn helpu plant i ddatblygu hunan-barch.
- i rai teuluoedd, mae presenoldeb rheolaidd plant yn yr ysgol yn galluogi rhieni i wneud pethau eraill ac yn gwneud yr amser gartref yn fwy pleserus.
- mae plant sy'n colli sesiynau'n rheolaidd, neu sy'n aml yn hwyr i'r ysgol, yn aml yn teimlo eu bod yn colli allan neu fod angen iddynt ymdrechu'n galetach er mwyn deall beth sy'n digwydd neu beth mae plant eraill yn siarad amdano neu'n ei wneud.
- mae presenoldeb rheolaidd yn helpu llawer o blant ifanc i gael cymorth i wahanu'n naturiol oddi wrth eu rhieni neu ofalwyr a dechrau datblygu sgiliau bywyd.

I dderbyn yr wybodaeth hon mewn fformat arall neu yn Gymraeg, cysylltwch â'r person uchod.
To receive this information in alternative format, or in Welsh please contact the above.
INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Rydym yn cydnabod bod ansicrwydd yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi cael effaith ar lawer o deuluoedd a phlant. Hoffem annog pob teulu i geisio dychwelyd i bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol, os nad ydynt yn gwneud hynny eisoes. Os oes angen rhagor o gymorth a chefnogaeth gallwch gysylltu ag ysgol eich plentyn neu'r Gwasanaeth Lles Addysg yn educationwelfareservice@swansea.gov.uk a all gynnig cymorth a chefnogaeth.

Yn gywir

Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council